CHARLES, DAVID, I (1762 - 1834), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, emynydd

Enw: David Charles
Dyddiad geni: 1762
Dyddiad marw: 1834
Priod: Sarah Charles (née Phillips)
Plentyn: Sarah Hughes (née Charles)
Plentyn: Eliza Davies (née Charles)
Plentyn: David Charles
Rhiant: Jael Charles (née Bowen)
Rhiant: Rees Charles
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, emynydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Cerddoriaeth; Barddoniaeth
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 11 Hydref 1762 ym Mhant-dwfn, Llanfihangel Abercywyn, Sir Gaerfyrddin, mab Rees a Jael Charles. Yr oedd yn frawd i Thomas Charles. Prentisiwyd ef yn driniwr llin a gwneuthurwr rhaffau yng Nghaerfyrddin, a bu am dymor yn ymberffeithio'i grefft ym Mryste. Dysgodd *Night Thoughts* Edward Young ar ei gof yn gynnar, ac argyhoeddwyd ef trwy ddarllen pregethau Ralph Erskine. Dychwelodd i Gaerfyrddin i ddilyn ei alwedigaeth, a phriodod Sarah, merch Samuel Levi Phillips, bancer o Iddew Cristnogol, Hwlffordd. Ymunodd â chynulleidfa'r Methodistiaid yn Heol-y-dwr, ac etholwyd ef yn flaenor yno. Daeth yn arweinydd yn fuan ymhlith Methodistiaid y De, a chymerodd ran flaenllaw yn sefydlu'r genhadaeth gartref a llunio'r *Gyffes Ffydd.* Dechreuodd bregethu yn 1808, a gweinyddai'r ordinhad o fedydd cyn ei ordeinio yn 1811 yn ordeiniad cyntaf y Methodistiaid yn Llandeilo Fawr. Yr oedd yn un o wrthwynebwyr pennaf llywodraeth Nathaniel Rowland yn y corff Methodistaidd. Cafodd ergyd o'r parlys yn 1828, a bu'n ddiymadferth weddill ei oes. Bu farw 2 Medi 1834, a'i gladdu yn Llangynnor.

Ystyrid ef yn feddyliwr gloyw ac yn ddiwinydd craff. Dengys ei bregethau cyhoeddedig fod ganddo arddull epigramaidd a gwead clos i'w feddyliau. Cyhoeddodd Hugh Hughes, ei fab-yng-nghyfraith, *Deg a Thri Ugain o Bregethau, ynghyd ag Ychydig Emynau* (Caerlleon) yn 1840; cyfrol o *Sermons*, etc. (London), yn 1846; a *Pregethau*, etc. (Wrecsam) drachefn yn 1860. Ymddangosodd *Detholion o sgrifeniadau* (Wrecsam) yn 1879. Cyhoeddwyd ei emynau yng nghasgliadau bychain y cyfnod, megis *Anthem y Saint ... gan Evan Dafydd* (Caerfyrddin), 1807; *Hymnau ar Amrywiol Achosion* (Caerfyrddin), 1823, etc. Y mae ei safle fel emynydd yn sicr, a cheir ' Mae ffrydiau 'ngorfoledd yn tarddu,' ' Rhagluniaeth fawr y nef,' etc., yn y prif gasgliadau Cymreig.

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

Hugh Hughes, *Sermons by the late Rev. David Charles ... translated from the Welsh, with a memoir* (London 1846)

Y Drysorfa, 1847, 129, 161, 193

D. E. Jenkins, *Life of Thomas Charles* (Dinbych 1908)

Y Traethodydd, 1934, 210-7

J. Thickens, *Emynau a'u Hawduriaid* (1945), 23-7

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: David Charles

Delweddau

Maclure, Macdonald and Macgregor, Y Parch. David Charles Caerfyrddin

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 68698903

Wikidata: Q5232309

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu